Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol Glan y Môr

Diben y Grant Amddifadedd Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (h.y.PYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. Gynllunio ymyrriaethau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiadau plant o gefndiroedd difreintiedig, gan fonitro eu cynnydd yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GAD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwyso ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Yn 2018-19 rhoddwyd i Ysgol Glan y Môr ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o £66,700.

Yn Ysgol Glan y Mor mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Gwynedd a GwE, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

1. Gyflogi swyddog i weithio'n benodol gyda'r disgyblion PYD a'u teuluoedd i wella canran presenoldeb y disgyblion PYD a gwella eu cynnydd addysgol.
2. Sicrhau cefnogaeth ariannol ar gyfer tripiau addysgiadol / cymdeithasol; wythnos datblygu sgiliau a gwersi ychwanegol a chlybiau ar ôl ysgol.
3. Brynu gwasanaeth cwmni arbenigol i wella sgiliau paratoi ar gyfer arholiadau allanol.
4. Gynyddu mynediad at anogwr dysgu- clwb galw mewn amser cinio; ystafell dawel GC amser cinio; sesiynau adolygu ychwanegol ar gyfer arholiadau.
5. Gael mynediad at ddatblygiad proffesiynol i'r staff er mwyn cefnogi lles disgyblion.
6. Gael mynediad at ddatblygiad proffesiynol i staff barhau i wella'r dysgu ac addysgu er mwyn codi safonau. Eleni mae'r flaenoriaeth hon yn cynnwys rhoi sylw penodol i gynllun Meddylfryd Tŵf sy'n rhoi sylw i wella dyfalbarhad, hunan ddelwedd a sgiliau hunan asesu disgyblion.

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.